

## **Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion**

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0981(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Mehefin 2008**

### **At Joyce Watson:**

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ôl eich cwestiwn i mi yn sesiwn Holi'r Prif Weinidog ar 6 Mai am ehangu cwrdd y strategaeth cam-drin yn y cartref. Cytunodd Brian, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros y materion hyn a minnau i ysgrifennu atoch ar ôl i'r Cabinet drafod ei Bapur ar y fforwm Priodasau dan Orfod a Throseddau er Anrhydedd

Rwy'n deall yr aeth Dr Brian Gibbons, Gweinidog y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, i gyfarfod o'r Grŵp Hollbleidiol ar y Fasnach mewn Menywod a Phlant a oedd dan eich cadeiryddiaeth. Rhoddodd olwg gyffredinol ar waith Llywodraeth y Cynulliad i ddod â phob trais yn erbyn menywod i ben, gan ddisgrifio'n gwaith o ran ymateb i briodasau dan orfod a throseddau er anrhydedd.

Rwy'n gobethio bod hyn yn tawelu'ch meddwl ein bod ni wedi ymrwymo i ymateb yn gadarn i'r materion hyn.